



At: Cyfarwyddwyr Addysg, Arweinwyr Data Awdurdodau Lleol

Copi: CLILC, y Consortia Rhanbarthol

7 Gorffennaf 2023

Data Canlyniadau Arholiadau 2023

Annwyl gyfeillion

Wrth inni gymryd y cam nesaf ar y daith yn ôl tuag at drefniadau arholi sy'n cyd-fynd yn well â'r rhai cyn y pandemig, mae [Cymwysterau Cymru](#) wedi cadarnhau eu bwriad i ganlyniadau eleni ddisgyn yn fras hanner ffordd rhwng y rhai a ddyfarnwyd yn 2019 (y flwyddyn olaf cyn y pandemig) a'r rhai a ddyfarnwyd yn 2022 (y flwyddyn gyntaf i ddysgwyr sefyll arholiadau wrth inni ddod allan o'r pandemig). Mae hyn yn golygu, ar gyfer pob pwnc, bod canlyniadau ar lefel genedlaethol yn debygol o fod yn uwch nag a oeddent yn 2019, ac yn is nag a oeddent yn 2022.

Gan mai dull cenedlaethol yw hwn yn hytrach na dull ysgol-benodol, ac oherwydd y gwahanol drefniadau asesu a graddio sydd wedi digwydd mewn ymateb i effeithiau parhaus y pandemig, mae'n bwysicach fyth ein bod yn osgoi gwneud unrhyw gymariaethau â chanlyniadau o flynyddoedd eraill, ar lefel genedlaethol, ar lefel ranbarthol nac ar lefel ysgol. Hoffwn ailadrodd na ddylid defnyddio set yr haf hwn o ddata canlyniadau arholiadau, ac yn ddiweddarach ddata mesur interim Cyfnod Allweddol 4 a ddarperir drwy Setiau Data Craidd Cymru Gyfan, i farnu nac i gymharu ysgolion. Ni ddylid eu defnyddio i wneud penderfyniadau nad ydynt er budd gorau dysgwyr. Er hynny, byddant yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth o ran helpu ysgolion i hunanwerthuso.

Hoffwn atgoffa cyd-weithwyr y bydd Llywodraeth Cymru unwaith eto yn hwyluso'r broses o drosglwyddo data canlyniadau arholiadau CBAC i awdurdodau lleol, fel mewn blynyddoedd blaenorol, drwy system ddiogel [Menter Cyfnewid Data Cymru \(DEWi\)](#). Bydd hyn yn cynnwys canlyniadau fesul pwnc ar lefel ysgol ac awdurdod lleol, a dylai ddigwydd ar y diwrnodau canlyniadau priodol: 17 Awst ar gyfer canlyniadau Safon Uwch a 24 Awst ar gyfer canlyniadau TGAU. Rwy'n gobeithio y bydd hyn o gymorth ichi ac y bydd yn cefnogi eich prosesau eich hun wrth ichi ystyried canlyniadau'r arholiadau eleni. Gyda'r trefniadau hyn ar waith, **gofynnaf i**


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

awdurdodau lleol beidio â gofyn am y data hyn yn uniongyrchol gan ysgolion hefyd, er mwyn osgoi gosod unrhyw faich diangen arnynt.

Pe bae gennych unrhyw gwestiynau pellach, cysylltwch â fy nghyd-weithwyr drwy'r mewnflwch IMS@llyw.cymru.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Owain Lloyd'.

Owain Lloyd

Cyfarwyddwr y Gymraeg ac Addysg